



## Cenhadaeth

Ein cenhadaeth yw creu rhwydwaith cefnogol a chynhwysol sy'n gwella ansawdd ac ystod gwasanaethau a gweithgareddau yn ystod y dydd ar gyfer pobl ag anabledd dysgu ledled Cymru.

## Nodau

Mae gan y rhwydwaith hwn 3 nod:

### 1. Gwella cydweithredu

Meithrin partneriaethau cryf ymhlith sefydliadau i rannu arferion gorau ac adnoddau.

### 2. Gwella gwasanaethau

Annog gwelliant parhaus ansawdd ac ystod gwasanaethau a gweithgareddau yn ystod y dydd.

### 3. Cynyddu asiantaeth

Sefyll dros hawliau pobl ag anabledd dysgu i gael dewis a rheolaeth dros wasanaethau dydd a gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt.

## Rydym yn credu:

- Mae gan bawb ag anabledd dysgu sydd ag angen nodedig am gymorth yn ystod y dydd yr hawl i gael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau priodol yn ystod y dydd.
- Mae gan bawb ag anabledd dysgu sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a gwasanaethau yn ystod y dydd hawl i ddewis a rheolaeth am eu cyfranogiad.
- Nid yw gwasanaethau a gweithgareddau yn ystod y dydd am oes. Rhaid rhoi cyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu symud ymlaen a dylem fod yn uchelgeisiol am ddyfodol pobl.

## Gwerthoedd

Mae'r rhwydwaith hwn yn seiliedig ar y gwerthoedd hyn:

### 1. Cydweithio

Rydym yn gwerthfawrogi cydweithredu a phartneriaeth, gan gydnabod y gallwn gyflawni mwy gyda'n gilydd.

### 2. Arloesedd

Rydym yn cofleidio arloesedd a ffyrdd newydd o weithio wrth ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau dydd.

### 3. Cynhwysiad

Bydd y rhwydwaith yn amgylchedd cynhwysol lle mae cyfranwyr yn cael eu trin ag urddas a pharch.

### 4. Grymuso

Rydym wedi ymrwymo i rymuso pobl ag anabledd dysgu i gyflawni eu potensial llawn.